**ATODIAD 9**

**ASESIAD EFFAITH O SAFBWYNT CYDRADDOLDEB**

1. Mae'r gyllideb a amlinellir yma'n ceisio parhau i ddarparu'r deilliannau priodol i holl drigolion y sir, ond gan fu cynnydd annigonol yn ein incwm i gwrdd â chwyddiant, ayb, mae'n rhaid gweithredu'r cynlluniau arbedion roedd wedi'u cymeradwyo eisoes ynghyd â'r pecyn o gynlluniau ychwanegol sy'n Atodiad 3.

2. Gydag arbedion, mae posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchodedig, ond mae'r adrannau sy'n berchen ar y cynlluniau arbedion unigol wedi cynnal asesiadau effaith priodol ynghylch y penderfyniadau ariannol ar arbedion a thoriadau gerbron yma. Lle'n briodol, yn Atodiad 3, gwelir sylwadau gyferbyn â'r cynlluniau unigol, neu linc i asesiadau manwl.

3. Ein nod oedd sicrhau fod ein penderfyniadau ariannol yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb, sef:
   - Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol, ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd dan y Ddeddf.
   - Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
   - Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

   Wrth asesu, roedd yr adrannau perthnasol wedi ceisio canfod sut i wneud y gorau o bob cyfle i wella cydraddoldeb yn ogystal â cheisio osgoi neu liniaru unrhyw effaith negyddol hyd orau eu gallu.

4. Wrth gynllunio ein cyllidebau, ar gyfer parhad gwasanaethau'r Cyngor mae ein cyfrifwyr wedi rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb ar bob lefel, gan ddefnyddio data a thystiolaeth am ddemograffi a thueddiadau wrth gynllunio ar lefel strategol. Yn yr un modd (ond yn fwy penodol) wrth ddod i benderfyniad ar gynlluniau arbedion unigol mae penaethiaid adrannau'r Cyngor wedi casglu data, dadansoddi effaith cynlluniau a monitro'n briodol.

5. Mae gennym gyfundrefnau clir ar gyfer darganfod arbedion, sydd yn cynnwys asesiad llawn o effaith yr arbedion o safbwynt cydraddoldeb. Mae'r adran berthnasol wedi dadansoddi pob cynnig unigol, gan nodi os oes angen cynnal asesiad effaith wrth ddatblygu'r prosiect. Dyma fydd y drefn gyda'r arbedion effeithlonrwydd pellach erbyn 2019/20.

6. Mae'r gyllideb a argymhellir yn gwneud mwy na chwrdd â chostau chwyddiant. Mae o hefyd yn ceisio sicrhau fod pwysau cyllidebol anorfod sy'n disgyn ar wasanaethau (oherwydd galwadau uwch a roddir arnynt, yn sgil nifer uwch o gleientau, disgyblion, a.y.b.) hefyd yn cael eu cyfarch trwy wneud penderfyniadau cyllidebol cydwybodol a rhesymol (gweler y gofynion gwario ychwanegol, gan gynnwys 'demograffi', yn rhan 3 o'r adroddiad).

7. Mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau. Mae'r symiau a welir o dan y pennawd "pwysau ar wasanaethau" yn gydnabyddiaeth fod y Cyngor yn darparu cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaethau a ddarperir. Fe geir manylion llawn yn Atodiad 2 ac fe welir fod rhan sylweddol (£1,786,350) o'r cyfanswm bidiau refeniw parhaol (£3,060,030) yn mynd i'r maes gofal cymdeithasol, a bod mwyafrif y gweddill (£1,139,640) ohono'n mynd at anghenion arbennig disgyblion ysgolion.

Dyma gyflwyniad am Asesiadau Effaith Cydraddoldeb gan y Swyddog Polisi a Cydraddoldeb arbenigol, ynghyd a'i sylwadau yn benodol am effaith yr arbedion (nid yw wedi sylwebu ar agweddau eraill bositif o'r gyllideb crybwyllir uchod, megis 'bidiau' gofal).

**Beth yw asesiad effaith cydraddoldeb?**

Mae'n bwysig iawn fod ystyriaeth yn cael ei roi i bobl hefo'r 9 nodwedd cydraddoldeb sy'n cael eu gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wrth wneud penderfyniadau ynglŷn ag arbedion. Y naw nodwedd yma yw - oedran, rhyw, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, a phriodas a phartneriaeth sifil. Mae nifer o'r nodweddion hyn yn gyffredin i holl bobl Gwynedd e.e. nid oes unrhyw un o'n trigolion sydd heb oedran neu hil. Mae'r lleill yn nodweddion sy'n effeithio canran o bobl Gwynedd ond mae'n bwysig cofio fod pobl sydd â pherthynas hefo'r unigolyn hefyd yn cael eu diogelu e.e. teulu, ffrindiau, gofalwyr (yn achos anabledd) ayb. Heb ystyried yr effaith ar y nodweddion yma nid yw'n bosib inni sicrhau tegwch i bobl Gwynedd.

Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd gyffredinol arnom ni fel Cyngor i roi sylw dyledus i'r angen i:

1. Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y ddeddf
2. Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
3. Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt

Dylid nodi fod y ddyletswydd gyffredinol ond yn berthnasol i 8 allan o'r naw nodwedd (nid yw'n cynnwys priodas a phartneriaeth sifil).

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi dyletswyddau pellach ar fudiadau cyhoeddus yng Nghymru, sef dyletswyddau penodol. Un o'r dyletswyddau hynny yw gwneud asesiad effaith cydraddoldeb wrth ystyried cyflwyno polisi newydd neu wneud newidiadau neu doriadau i wasanaeth. Mae angen tystiolaeth ddigonol i ystyried a fyddai'r penderfyniad yn effeithio'n anghymesur ar bobl yn rhannu un nodwedd warchodedig neu fwy. Mae angen hefyd asesu effaith ar ei allu i gydymffurfio a'r ddyletswydd gyffredinol. Gofynnir i ni sicrhau fod tystiolaeth berthnasol er mwyn deall effaith debygol neu wirioneddol polisïau, gan gynnwys barn pobl hefo nodweddion gwarchodedig.

**Faint o bwyslais a ddylid ei roi ar asesiad effaith cydraddoldeb?**

Ar ôl ystyried hyn, rhaid i'r penderfynwyr roi sylw dyledus (hy pwysau priodol) i ganlyniadau asesiadau o'r fath. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol ystyried gweithredu i ymdrin ag unrhyw broblemau a nodwyd, fel ymdrin ag effeithiau negyddol, lle bo hynny'n bosib. Nid yw'r ffaith fod asesiad yn dangos effaith felly'n eich atal rhag torri lefel gwasanaeth, ond mae'n angenrheidiol i'r Cyngor feddwl am bob ffordd posib i atal neu leddfu unrhyw effeithiau negyddol.

**Asesu effaith yr arbedion**

Mae'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb i'w cael wrth glicio ar linc wrth ymyl y cynnig ar y tabl. Mi wnewch chi sylwi nad oes asesiad effaith cydraddoldeb wedi ei wneud ar bob cynnig. Roedd cyfrifoldeb ar bob un o'r gwasanaethau, wrth gwrs, i edrych a oedd effaith wrth baratoi i gynnig eu cynigion. Os nad oes effaith ar bobl hefo nodweddion gwarchodedig yn cael ei amlygu nid oes angen gwneud asesiad effaith cydraddoldeb. Weithiau roedd yn dod yn glir nad oedd effaith wrth wneud yr asesiad ac mae rhai asesiadau yma wedi eu cyflwyno mewn ffurf gryno. Er bod y Swyddog Cydraddoldeb a Pholisi wedi rhoi mewnbwn, cyfrifoldeb yr Adran oedd penderfynu os oedd angen gwneud asesiad effaith cydraddoldeb. Mae crynodeb ar gael ar yr tabl hefyd ond

mae'n hynod bwysig fod pawb yn darllen yr asesiadau llawn er mwyn cael darlun cyflawn o'r effaith ar wahanol garfannau o bobl.

**Canlyniadau'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb**

O edrych ar yr asesiadau effaith cydraddoldeb mi fyddwch chi'n sylwi fod y cynigion yn cael mwy o effaith ar rai nodweddion gwarchodedig na'i gilydd. Rhaid pob tro ystyried yr effaith gronnus ar bobl mewn sefyllfa o'r fath. Mae rhai o'r asesiadau'n dangos mai ar bobl anabl, pobl hŷn a phlant mae'r effaith fwyaf, boed hwnnw'n negyddol neu bositif. O gofio fod pobl hefo perthynas hefo person â nodwedd warchodedig hefyd yn cael eu diogelu, dylid nodi'r effaith felly ar ofalwyr a rhieni yn ogystal. Wedi dweud hyn, mae angen cofio fod y Cyngor wedi ystyried nifer fawr o arbedion eraill ac wedi ceisio dewis y rhai oedd a lleiaf o effaith ar y boblogaeth yn gyffredinol ynghyd a pobl hefo nodweddion cydraddoldeb. Mae'r asesiadau hefyd yn dangos y mesurau fydd yn cael eu cymryd, os yn bosib, i leddfu unrhyw effaith negyddol a amlygir.

Ffactor arall i'w ystyried yw tlodi. Er nad yw'n nodwedd warchodedig mae ystadegau'n dangos fod pobl hefo rhai nodweddion cydraddoldeb yn fwy tebygol o fod yn dlawd na gweddill y gymdeithas. Mae hyn yn cynnwys teuluoedd hefo person anabl ynddynt, rhai pobl o leiafrifoedd ethnig a theuluoedd hefo plant. Bydd rhai o'r cynigion yn cael effaith anghymesur ar rai o'r bobl hyn.

Rhaid hefyd ystyried lleoliad wrth edrych ar yr effaith. Mae rhai o'r cynigion yn effeithio ardaloedd penodol ond nid oes unrhyw effaith cronnus amlwg wedi ei adnabod ar hyn o bryd. Bydd angen asesu hyn ymhellach wrth ddatblygu'r asesiadau fel mae'r cynigion yn aeddfedu.

Mae'n bwysig hefyd ystyried yr effaith mae'r arbedion yma'n eu cael ar aelodau staff. Bydd rhai aelodau staff yn colli eu swyddi neu'n gorfod newid eu gwaith. Gan fod oddeutu 70% o weithlu'r Cyngor yn ferched mae'n anorfod y bydd yr arbedion yn cael mwy o effaith ar ferched.